

Castell Caerdydd

Sesiwn Rufeinig Safonol yn y Ganolfan Addysg

Lleoliad

Cynhelir eich gweithdy yn Ystafell y Stiward (Ystafell 2) yn y Ganolfan Addysg.

Disgrifiad

Bydd y sesiwn yn y Ganolfan Addysg yn edrych ar ddyfodiad y Rhufeiniaid yng Nghaerdydd, y rhesymau posibl dros ddewis y lleoliad ar gyfer y caer cyntaf o bedwar a adeiladwyd yma, y newidiadau yn siâp a lleoliadau'r caer a siâp y caer terfynol. Bydd disgyblion yn gweld replica o arfwig ac arfau o'r cyfnod Rhufeinig, yn trafod eu defnydd, eu cryfderau a'u gwendidau ac yn cael cyfle i roi cynnig ar rai eitemau.

Cynhelir y sesiwn hon gan y Swyddog Addysg sydd wedi pasio prawf CRB.

Taith Dywys o'r Castell

Mae taith dywys o'r Tŷ yn rhan o bris yr ymweliad. Bydd y daith yn mynd â'r disgyblion i rai o'r ystafelloedd mwyaf godidog sy'n dyddio o'r cyfnod Fictoraidd. Mae'r cynlluniau'n adlewyrchu gweledigaeth y pensaer o sut y byddai tu mewn i Gastell canoloesol wedi edrych. Cyfeirir at rai o reolwyr y cyfnod Rhufeinig yn addurn y Llyfrgell.

Hyd

Bydd y sesiwn yn para 75 munud. Ar gyfer disgyblion Cyfnod Sylfaenol/Cyfnod Allweddol 1 a grwpiau AAA, gellir byrhau'r sesiwnau i ddiwallu anghenion y grŵp. Bydd taith dywys o'r Castell yn para tua 50 munud. Gall athrawon sydd â phlant iau ddewis taith fyrrach sy'n hepgor y grisiau troellog i ben un o'r tyrau.

Mae gwybodaeth ychwanegol am y cyfnod Rhufeinig ar y Daith Glywedol o'r Tiroedd ac yn y Llwybr Teulu.

Canlyniadau Dysgu Allweddol

Bydd y canlyniadau a ddysgwyd a'r hyn a gwmpesir yn ystod y sesiwnau yn dibynnu ar oed, anghenion ac amrediad y disgyblion. Fodd bynnag, erbyn diwedd y sesiwn, bydd eich disgyblion wedi:

- ◆ Dysgu am y rhesymau tebygol pan wnaeth y Rhufeiniaid ddewis y lleoliad ar gyfer eu caerau yng Nghaerdydd
- ◆ Dysgu sut rydym yn gwybod y wybodaeth am y caerau Rhufeinig yng Nghaerdydd
- ◆ Dysgu am y gwahanol gaerau yng Nghastell Caerdydd
- ◆ Dysgu am y rhengoedd gwahanol o filwyr mewn byddin Rufeinig
- ◆ Dysgu am y gwahanol fathau o arwisgoedd a wisgwyd a'r arfau a ddefnyddiwyd ar y pryd
- ◆ Dysgu am fywydau pob dydd rhai o'r milwyr hyn
- ◆ Siarad am a gweld rhai o'r eitemau a ddefnyddiwyd bob dydd yn ystod cyfnod y Rhufeiniaid
- ◆ Gwisgo helmed, codi tarian a thrin eitemau o'r arfwig

Prif Gysylltiadau â'r Cwricwlwm Cenedlaethol

- ◆ **Cyfnod Allweddol 2 (Cymru)**
 - Bywyd pob dydd pobl sy'n byw yn ystod yr Oes Haearn, Celtiaid neu'r Rhufeiniaid (Hanes)
- ◆ **Cyfnod Allweddol 2 (Lloegr)**
 - Rhufeiniaid, Eingl-Sacsoniaid a Llychlynwyr ym Mhrydain (Hanes)

Beth Arall sy'n Rhan o'ch Ymweliad

Mae eich ymweliad â'r Castell hefyd yn cynnwys:

- Defnyddio'r Daith Glywedol a ysgrifennwyd yn arbennig ar gyfer plant
- Sioe ffilm a mynediad i ardaloedd y Tiroedd gan gynnwys y Gorthwr, y Bylchfuriau a'r Llochesi Rhyfel sydd newydd agor.

Fel arfer, mae gennym adar ysglyfaethus ar y safle yn ystod yr wythnos ond ni allwn warantu hyn.

Polisi Codi Tâl Firing Line

Oherwydd newid polisi diweddar gan Amgueddfa Firing Line (sef yr amgueddfa filwrol yn islawr Canolfan Ddehongli'r Castell), ni chaiff grwpiau ysgol sy'n ymweld â'r Castell fynediad i'r amgueddfa fel rhan o'u hymweliad mwyach.

Mae gan Firing Line wasanaeth addysg ar wahân, ac os hoffech gysylltu â hwy i wneud trefniadau i ymweld â'r amgueddfa, gallwch wneud hynny drwy ffonio (029) 2087 3623. Noder y bydd rhaid talu tâl ychwanegol ar ben pris mynediad i'r Castell.